**Y CABINET**

**COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2023 AM 1PM**

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Andrews (Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Chymunedau), N. George (Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo, Priffyrdd), J. Pritchard (Aelod o'r Cabinet dros Ffyniant, Adfywiad a Newid Hinsawdd), S. Cook (Aelod o'r Cabinet dros Dai), E. Forehead (Aelod o'r Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), C. Morgan (Aelod o'r Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd) ac E. Stenner (Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Amgylchedd).

Yn bresennol hefyd:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Richards, (Pennaeth Cynllunio Addysg a Strategaeth), S. Richards (Pennaeth Cynllunio Addysg a Strategaeth), A. West (Ysgolion y 21ain Ganrif, Rheolwr Derbyniadau a Gwahardd), H. Munroe (Rheolwr Rhaglen Creu Lleoedd Caerffili), J. Williams (Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion), P. Hudson (Arweinydd Tîm Adfywio Menter Busnes), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO**

Roedd yr Arweinydd eisiau atgoffa'r rhai oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor, heblaw ar gyfer trafodaethau a fyddai'n cynnwys eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio. Cliciwch Yma i'w Weld.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Leonard (Aelod o'r Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd).

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Cyhoeddodd y Cynghorydd C. Andrews ddiddordeb personol yn unig mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 5 Taliad Atodol Ar Gyfer Cartrefi Gofal Preswyl/Nyrsio i Gyfrannu at Gostau Uwch Amwynderau a Chostau Bwyd am fod ei Mam-yng-Nghyfraith yn byw mewn cartref gofal.

Cyhoeddodd y Cynghorydd S. Cook ddiddordeb personol yn unig mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 5 Taliad Atodol Ar Gyfer Cartrefi Gofal Preswyl/Nyrsio i Gyfrannu at Gostau Uwch Amwynderau a Chostau Bwyd am fod ei Nain yn byw mewn cartref gofal.

Am fod y ddau hyn wedi cyhoeddi diddordebau personol, nid oedd gofyniad iddynt adael y cyfarfod a gallent gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

## 3. COFNODION – 14 MEHEFIN 2023

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – NODI

Derbyniodd y Cabinet ei Flaenraglen Waith, oedd yn rhoi manylion yr adroddiadau rhaglenedig hyd 18 Hydref 2023.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi. Cytunwyd i hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

## 5. TALIAD ATODOL AR GYFER CARTREFI GOFAL PRESWYL/NYRSIO I GYFRANNU AT GOSTAU UWCH AMWYNDERAU A CHOSTAU BWYD

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ail-bwrpasu cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i fynd i'r afael â'r pwysau costau a wynebir gan ddarparwyr gofal preswyl a nyrsio.

Nododd y Cabinet fod Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 30 Mai 2023.

Nododd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn rhan olaf y flwyddyn ariannol 2021/22 wedi rhoi ariannu ychwanegol unwaith yn unig o £3.540m drwy'r Grant Cynnal Refeniw, yr oedd £595k ohono wedi ei glustnodi i ddarparu gwersi gyrru a cherbydau trydan i ostwng rhai o'r rhwystrau y mae gweithwyr yn eu hwynebu wrth fynd i mewn i'r proffesiwn gofal cartref, yn arbennig cost ddigynsail petrol ar y pryd. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y diddordeb mewn darparu cerbydau trydan neu wersi gyrru i'r staff wedi bod yn gyfyngedig iawn a bod y gostyngiad mewn prisiau petrol wedi helpu hefyd i ostwng yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag mynd i mewn i'r proffesiwn gofal cartref.

Felly, cynigiwyd ailgyfeirio £507k o'r gronfa wrth gefn hon i ymdrin â'r pwysau cost eithriadol a wynebir gan ddarparwyr cartrefi preswyl a nyrsio mwy ac, mewn ymateb i bryderon a godir gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol, byddai £13,750 hefyd yn cael ei ailgyfeirio i fynd i'r afael â chostau tebyg gan ddarparwyr llai.

Gofynnwyd am eglurhad pam fod y cyllido hwn yn cael ei ddefnyddio yn y sector preifat yn unig a chadarnhaodd y Swyddogion fod Darparwyr wedi dweud wrthynt nad oedd cynnydd eleni'n ddigon i dalu am y cynnydd sylweddol mewn costau ynni a bwyd. O ran cyllidebau darpariaeth fewnol, roedd y rhain wedi cael eu cynyddu'n barod i adlewyrchu'r cynyddiadau. Nodwyd bod 125 o welyau preswyl llawn yn fewnol ar hyn o bryd, ond yn y sector annibynnol mae cymysgedd o wasanaethau preswyl, nyrsio preswyl, henoed eiddil eu meddwl, a nyrsio henoed eiddil eu meddwl.

Gofynnodd yr aelodau sut y byddai'r ariannu hwn yn effeithio ar y farchnad ehangach a chadarnhaodd y Swyddog eu bod yn gobeithio y byddai hwn yn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd o ystyried fod rhai darparwyr mewn sefyllfa ansefydlog iawn, yn arbennig cartrefi nyrsio ac y byddai'r cyllido hwn yn eu galluogi nhw i ddal ymlaen i weithredu.

Yna gofynnwyd a oedd unrhyw arbediad ynni'n digwydd yng nghartrefi gofal y Cyngor a pham fod taliad is fesul gwely i ddarparwyr llai. Cadarnhaodd y Swyddog fod panelau solar wedi eu gosod ymhob cartref gofal a bod rhaglen adnewyddu ffenestri ar waith i wella arbediad ynni. Dywedodd fod cartrefi bach iawn o tua 4 gwely'n gallu rheoli eu defnydd ynni'n well a bod ganddynt hefyd fwy o hyblygrwydd o ran costau bwyd ac y gallent chwilio am y prisiau isaf, ond bod darparwyr mwy wedi eu clymu i mewn i gontractau cyflenwyr yn aml iawn a bod ganddynt lai o reolaeth dros eu costau amrywiol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol i hynny.

> PENDERFYNWYD ar y canlynol am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog;
>
> 1. Cymeradwyo ailbennu £520,740 o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth a
>
>    - Thalu taliad unwaith yn unig i ddarparwyr cartrefi gofal nyrsio a phreswyl mwy ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, yn gyfatebol â £1,000 fesul gwely sydd naill ai'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu sy'n agored i gael ei gytuno.
>    - Talu taliad unwaith yn unig i ddarparwyr cartrefi gofal preswyl bach ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, yn gyfatebol â £250 fesul gwely sydd naill ai'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu sy'n agored i gael ei gytuno.

## 6. RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY – BAND B – CYNNIG CAM 3

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad oedd wedi'i fwriadu i roi'r diweddaraf i'r Cabinet am y cam nesaf o raglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac roedd hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prosiect sydd wedi'i amlinellu yn adroddiad y Swyddog.

Nododd y Cabinet mai'r prosiect a bennwyd oedd ail leoli Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf mewn adeilad ysgol cynaliadwy newydd sbon lle rhennir y cyfleusterau ac a ddefnyddir gan y gymuned. Sicrhawyd y Cabinet y byddai'r ddwy ysgol yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac y byddent yn parhau fel endidau ar wahân o fewn adeilad deubwrpas.

Gofynnwyd a oedd sylwadau Aelodau Ward Lleol wedi eu casglu a chadarnhaodd y Swyddogion fod Aelodau Ward Lleol, yn Benaethiaid a Llywodraethwyr, yn gwbl gefnogol o'r prosiect.

Holodd yr aelodau a oedd unrhyw arolygon wedi eu gwneud i benderfynu ar addasrwydd y safle datblygu a chadarnhaodd y Swyddogion mai dim ond ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Achos Busnes y byddai unrhyw waith arolwg mewnwthiol yn cael ei wneud. Ond, roedd arolwg ecolegol nad oedd yn fewnwthiol wedi cael ei wneud ac roedd cynlluniau i wneud arolwg topograffigol.

Yna, ceisiwyd eglurhad am arbedion ynni ac arbedion ariannol drwy gyfuno 2 adeilad ysgol hŷn ar un safle newydd sbon. Cadarnhaodd y swyddogion bod gan y 2 ysgol sgôr D ar hyn o bryd mewn perthynas â defnyddio carbon, a'u bod yn defnyddio boeleri nwy yn y ddwy gyda

chyfanswm cyfunedig tybiedig o 107 tunnell o $CO^2$ y flwyddyn. Byddai gan yr ysgolion newydd safonau ynysiad uwch, strategaethau gwresogi carbon isel fel pympiau gwres o'r ddaear neu aer, ac roeddent yn rhoi ystyriaeth i ddefnyddio'r afon sy'n llifo ochr yn ochr â'r safle fel ffynhonnell ynni o bosib i wresogi'r ysgol. Roedd y Swyddog yn deall hefyd fod y Bwrdd Glo wedi dangos fod modd manteisio ar yr haenau glo o dan yr ysgol ei hun. Roedd hefyd amrywiol opsiynau o ran cynhyrchu ynni gwyrdd adnewyddadwy ar y safle drwy osod panelau PV ar y ddaear ac yn y to a defnyddio technolegau eraill fel y bo'n briodol.

Croesawodd y Cabinet y cynnig a'r amrywiol fuddion cymunedol fyddai'n dod gyda'r cynnig, yn cynnwys adnoddau chwaraeon dan do ac awyr agored a nodwyd y cyfleoedd cyflogaeth drwy ymrwymiadau contract gwerth cymdeithasol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, a thrwy gyfrwng Microsoft Forms cytunwyd i hynny'n unfrydol.

PENDERFYNWYD ar y canlynol am y rhesymau sydd yn adroddiad y Swyddog: -

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

2. Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prosiect cynigiedig sydd wedi ei amlinellu yn 2.2 ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol dilynol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

## 7. TREF CAERFFILI 2035 – CYNLLUN AILDDATBLYGU PENTREBANE STREET

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet am ailddatblygu Pentrebane Street ac roedd yn ceisio cymeradwyaeth i opsiwn datblygiad a ffefrir.

Nododd y Cabinet y gwir angen am adfywio canol y dref a chydnabu'r problemau economaidd a'r heriau parhaus sy'n wynebu canol trefi. Tynnwyd sylw at bwyntiau allweddol o adroddiad y Swyddog i roi mwy o gyd-destun am y cyfleoedd masnachol newydd ar lefel stryd a fyddai'n denu busnesau creadigol ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer rhagor o fuddsoddiad. Trwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Linc byddai'r cynllun hwn yn esiampl ar gyfer datblygiadau canol trefi yn y dyfodol ac yn creu datblygiad aml-ddefnydd cyffrous yn cynnwys cyfleoedd masnachol newydd ar lefel stryd, fflatiau gwerthiant marchnad dwysedd uchel, rhent cymdeithasol a rhent preifat.

Nodwyd ymhellach y byddai'r datblygiad yn cael ei lunio gan ddefnyddio dull ffabrig yn gyntaf er mwyn gostwng y defnydd o ynni, ac felly ôl-troed carbon cyffredinol cartrefi a fydd yn rhai Carbon Sero Net gyda sgôr A EPC.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r datblygiad yn fawr iawn a gofynnwyd am eglurhad am y canran o dai fforddiadwy y byddai'r datblygiad yn ei sicrhau. Cadarnhaodd y swyddogion mai'r cymysgedd arfaethedig ar y pryd oedd 50/50.

Yna ceisiwyd eglurhad am gostau'r safle a chadarnhaodd y Swyddogion bod y ffigurau wedi eu seilio ar y gwerthoedd a dderbyniwyd gan y Prisiwr Bro gyda 100% o gydosodiad y safle'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd at amhariad posibl i Ganol y Dref yn ystod y broses adeiladu a chadarnhaodd y Swyddogion y byddai rhywfaint o amhariad yn digwydd yn amlwg o ystyried natur y datblygiad, ond y byddai pob gofal yn cael ei gymryd i leihau lefel yr amhariad a chefnogi busnesau a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol. Nodwyd y byddai gweithiau dymchwel yn annhebygol o gychwyn tan chwarter 2 neu chwarter 3 2024 a byddai hynny ar ôl cwblhau

prosiect Marchnad Caerffili.

Roedd y Cabinet eisiau cofnodi eu diolch i Hamish Munroe a'i Dîm am eu holl waith caled yn cyflawni'r prosiect hwn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol i hynny.

PENDERFYNWYD ar y canlynol am y rhesymau sydd yn adroddiad y Swyddog:-

1. Cymeradwyo cynnwys yr eiddo ychwanegol ar Clive Street i ddarparu'r opsiwn datblygu dewisol, Opsiwn 03, yn yr Adroddiad Gwerthuso Opsiynau Linc.

2. Cymeradwyo ymestyn y CPO, pan fydd yn cael ei geisio, ar gyfer yr opsiwn a ffefrir i gynnwys yr eiddo ychwanegol sy'n ofynnol ar Clive Street.

3. Ariannu £250,000 ychwanegol o gronfeydd wedi'u clustnodi o gyfalaf heb ei ymrwymo i gefnogi'r ffioedd sy'n gysylltiedig â chaffael eiddo ychwanegol a'u rheoli cyn i'r trosglwyddiad i Linc gael ei gytuno.

4. Cydnabod y gofyniad am addasiadau i Lythyr Cyllido Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Cefn-wrth-Gefn arfaethedig gyda Linc.

5. Mae'n debygol y bydd gofyniad gan Lywodraeth Cymru i'r Cyngor wneud cyfraniad ariannu pellach i gyfateb â'u cyfraniad ariannol i hwyluso darpariaeth y cynllun, ac y bydd hyn yn amodol ar gydnabod adroddiad pellach gan y Cabinet.

## 8. BWRDD PROSIECT ADFYWIO – DYRANIAD ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL CYNGOR HEB FOD YN GYNGOR CYMUNED: WARD PONTLLAN-FRAITH

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyrannu'r cyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol Cyngor heb fod yn Gyngor Cymuned i Ward Pontllan-fraith ar gyfer y Grŵp Prosiectau Peirianneg i greu parcio oddi ar y stryd ar dir y cyngor yn Lôn Gelli, Pontllan-fraith.

Nododd y Cabinet bod y 3 Aelod Ward Lleol yn cytuno'n unfrydol ac y byddai'r prosiect yn sicrhau 6 man parcio ar gyfer preswylwyr Lôn Gelli a oedd ar ffordd fawr, heb unrhyw le parcio lôn gefn, oddi ar stryd neu arall ar gael, ac y byddai hyn yn helpu gyda phroblemau hirsefydlog.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms, cafodd hyn ei gytuno'n unfrydol.

i

PENDERFYNWYD am resymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Gymeradwyo dyrannu £25,776 o gyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol Cyngor heb fod yn Gyngor Cymuned i Ward Pontllan-Fraith i'r Grŵp Prosiectau Peirianneg i greu parcio oddi ar y stryd ar dir y cyngor yn Lôn Gelli, Pontllan-Fraith.

2. Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Bwrdd Prosiect Adfywio ar gyfer cynigion o dan £50k i sicrhau bod cynlluniau CIL yn cael eu darparu'n amserol i aelodau.

Caeodd y cyfarfod am 14.00 p.m.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo a'u harwyddo fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 12 Gorffennaf 2023.

CADEIRYDD